

Cofnodion y **Pwyllgor Amwynderau** a gynhaliwyd  
nos **Lun, 8 Mawrth 2021** am **7:00p.m** trwy gyfrwng **Zoom**.

**PRESENNOL:** Y Cynghorwyr Jim Bryan, Gavin Harris, Menna Jones, Anne Roberts, Mike van der Eijk a Heather Williams.

**19. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**20. DATGAN BUDDIANNAU**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

**21. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

**PENDERFYNWYD:** *cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2021 yn gywir.*

**22. MATERION YN CODI**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi. Parhau i aros am ymateb gan ddyfarnwyr y statws Croesawu Bysiau Moethus.

**23. PRISIAU PLANHIGION Y BASGEDI CROG 2021**

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y dyfynbris a dderbyniwyd gan Blanhigion Glyndwr Plant am £3,261.60. Nid oedd darparwyr potensial eraill y cysylltwyd gyda nhw wedi cyflwyno dyfynbrisiau.  
**PENDERFYNWYD:** *derbyn y pris of £3,261.60 yn cynnwys TAW gan Blanhigion Glyndwr Plants am ddarparu planhigion y basgedi crog yn 2021.*

**24. PRISIAU AM DDYFRIO'R BASGEDI CROG 2021**

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y dyfynbrisiau a dderbyniwyd gan Llanfwrog CIC a J & C Brimble.  
**PENDERFYNWYD:** *derbyn y dyfynbris £4,094.00 gan J & C Brimble am ddyfrio'r basgedi crog yn 2021.*

**25. PRISIAU TORRI GLASWELLT 2021-22**

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y dyfynbrisiau gan Llanfwrog CIC, Sherratt Landscape Contractors Ltd a TJS Tree and Ground Care. Roedd yr aelodau o blaid cefnogi'r contractwyr wedi'u lleoli yn Rhuthun ar sail darparu swyddi i bobl leol a chynaliadwyedd yr economi leol, a chynigiwyd ac eiliwyd derbyn y pris gan Llanfwrog CIC.  
**PENDERFYNWYD:** *derbyn y dyfynbris £3,328.74 gan Llanfwrog CIC am dorri glaswellt yn ystod 2021-22.*

**26. ADRODDIADAU ARCHWILIAD DIOGELWCH BLYNYDDOL**

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried yr adroddiadau archwiliad diogelwch 2021 ar gyfer y Parc Sglefrfyrdio a maes chwarae'r Caeau Chwarae Coffa, a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod. Cynhaliwyd archwiliad y parc sglefrfyrdio ychydig ar ôl y llifogydd ddiwedd Ionawr. Cynigiodd y Cadeirydd y dylid gwirio'r ardal eto ddiwedd yr wythnos, pan oedd rhagolygon y tywydd yn darogan glaw, i weld a oedd y dyddodion llifogydd wedi clirio neu a oedd angen golchi'r eitemau yn y parc. Awgrymwyd hefyd gael pris am ffens wedi gosod 2 fetr ymhellach na'r un bresennol, i'w ystyried ochry n ochr â gwelliannau eraill yng Nghae Ddôl, yn cynnwys y potensial i leoli trac pwmp beics yno. O ran maes chwarae'r Caeau Chwarae Coffa awgrymwyd rhannu'r adroddiad gyda'r grŵp sy'n codi arian i ddiweddar'u offer chwarae a thrfnu cyfarfod i gael diweddariad ynghylch y cynlluniau adnewyddu. Yn y cyfamser gofyn am brisiau am ddwy sedd siglenn newydd fel yr argymhellwyd yn yr adroddiad. .

**PENDERFYNWYD:** *adolygu'r dyddodion llifogydd yn y parc sglefrfyrdio ddiwedd yr wythnos a chael prisiau ar gyfer y ffens a rhannu adroddiad adolygiad diogelwch maes chwarae'r Caeau Chwarae Coffa gyda Chymdeithas Trigolion Parc Seren a threfnu cyfarfod i gael diweddariad ynghylch yr ymdrechion codi arian ac uwchraddio'r offer chwarae. Cael dyfynbrisiau ar gyfer dwy*

*sedd siglen newydd.*

**27. YMGYNGHORIAD YNGHYLCH GORCHYMYN DIOGELU MANNAU AGORED YN SIR DDINBYCH**

Derbyniodd yr aelodau wybodaeth fod Cyngor Sir Ddinbych yn ymgynghori ynghylch Gorchymyn Diogelu Mannau Agored drafft i wneud pobl yn y sir reoli eu cŵn yn briodol ym manau agored yr y sir. Roedd yr aelodau o'r farn fod yr achosion o bobl ddim yn codi baw eu cŵn wedi cynyddu yn ystod y cyfnod clo, a holodd a oedd gan y Cyngor Sir gwmni gorfodi'n gweithredu yn dilyn terfynu cytundeb Kingdom Security.

**PENDERFYNWYD:** *y byddai Cyngorwyr yn ymateb yn unigol ac y byddai hynny'n cael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer llunio ymateb gan y Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf.*

**28. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**PENDERFYNWYD:** *mai dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor fyddai nos Lun, 12 Ebrill 2021 am 7pm.*